

## **Capel Cariad - Cwestiynau a godwyd gan gyfranddalwyr**

Cafwyd ymateb positif iawn ar y cyfan gan ein cyfranddalwyr presennol, gyda rhai yn holi cwestiynau dilys oedd yn codi pryder am y syniad. Yma rydym yn ceisio ateb y cwestiynau a phryderon hynny.

### **1. Onid fyddai'r Fenter, trwy brynu eiddo yn y pentref, yn rhwystro prynwr lleol rhag cadw'r eiddo yn y gymuned?**

Yn ddelfrydol, da fyddai gweld Capel Cariad yn ôl yn nwylo prynwr lleol. Ond, rhaid ystyried fod y Capel wedi ei addasu ar gyfer diben masnachol, a byddai angen cryn dipyn o waith i'w droi yn gartref parhaol i unrhyw un. Gan ychwanegu'r gost hwnnw at gost y pryniant, mae'n gosod pris go uchel ar yr adeilad, gan ei wneud, o bosib, yn anfforddiadwy i unrhyw unigolyn neu deulu lleol.

Trwy brynu Capel Cariad, bydd Menter y Plu yn sicrhau bod yr adeilad yn aros yn nwylo'r gymuned, ac unrhyw incwm ohono yn dychwelyd i'r fenter gymunedol. Pwy a wyr, gobeithio y bydd modd ei werthu ymlaen at brynwr lleol maes o law.

### **2. Beth yw'r gwahaniaeth rhwng prynwr arall yn prynu ac yn rhedeg Capel Cariad fel llety gwyliau preifat a Menter y Plu yn prynu ac yn rhedeg Capel Cariad fel llety gwylia preifat?**

Y gwahaniaeth mwyaf ydi y byddai'r incwm masnachol a ddaw o Gapel Cariad yn cael ei roi nôl yng nghalon y gymuned trwy Fenter y Plu er mwyn atgyfnerthu darpariaeth bresennol Tafarn y Plu a phob menter gymunedol sydd yn dod o'i sgil.

Pe byddai prynwr arall yn ei brynu, byddai'r incwm hwnnw yn cael ei ddal gan yr unigolyn hwnnw wrth reswm.

### **3. Sut fydd y pryniant hwn yn elwa'r economi a'r gymuned leol?**

Bydd unrhyw wariant (gweithlu, gwasanaeth, nwyddau) yn cael ei wneud yn lleol cyn belled â phosib, gan roi arian yn syth yn yr economi leol boed drwy gyflogi adeiladwr lleol i brynu te neu goffi.

Yn ogystal, wrth ddarparu llety preifat, byddai modd rhoi pecyn gwybodaeth a phrofiad ymwelwyr cwbl Gymreig gyda phwyslais ar dreftadaeth a diwylliant lleol.

### **4. Beth fyddai hyd y morgais masnachol dan sylw?**

Opsiwn 1: Morgais masnachol o £150,000 gyda llôg o 3.5% am 25 mlynedd.

Opsiwn 2: Benthyciad WCVA am flwyddyn gyda llôg o 7%, ac yna morgais masnachol o £147,000 gyda llôg o 3.5% am 25 mlynedd.

### **5. Ydi'r Fenter yn rhagweld y byddai modd cynhyrchu elw o'r pryniant hwn?**

Ydyn, maes o law. Rydym yn amcangyfrif y byddem wedi ad-dalu'r benthyciad o fewn 20-25 mlynedd. Byddai modd ystyried talu llog ar gyfranddaliadau wedi i gyfnod ad-dalu'r benthyciad ddod i ben, neu ddefnyddio'r elw i gyllido prosiect cymunedol arall petai yna gyfle da i wneud.

### **6. Pam ddim rentu allan i rywun lleol i fyw yn Capel Cariad?**

Mae'r Capel wedi ei addasu ar gyfer diben masnachol ar hyn o bryd, a byddai angen cryn dipyn o waith i'w droi yn gartref parhaol i unrhyw un. Yn ystod y cyfnod o dalu morgais yn ôl, nid ydym yn credu bod modd cynnal y busnes drwy roi rhent am bris rhesymol i rywun lleol.

### **7. Os mae'r Fenter yn prynu'r Capel ond nid oes modd ei osod oherwydd sefyllfa COVID, sut y bydd modd talu costau (gan gynnwys y morgais) heb incwm?**

Rydym mewn trafodaethau i gael peidio ad-dalu'r morgais yn ystod cyfnod o'r fath. Efallai bydd rhaid defnyddio rhywfaint o'r arian wrth gefn, ond mae gennym ddigon o arian yn y coffrau i oroesi sefyllfa o'r fath.

Os ydym yn mynd hefo opsiwn 2 (gweler cwestiwn 4) byddem yn cael cyfnod o beidio talu'r ddyled gan ei fod yn fwy hyblyg efo taliadau.

### **8. Rydym yn gwynebu'r gaeaf ac, mae'n debygol, cyfnod clo byr arall. A fyddai digon o arian ar ol wrth gefn i dalu costau dros y misoedd nesaf tan i ni weld pethau'n gwella a'r economi yn agor eto?**

Mae gennym ddigon o arian yn y coffrau i oroesi sefyllfa o'r fath.

Rydym hefyd yn derbyn cymorth ariannol gan wahanol sefydliadau i helpu goroesi'r cyfnod clo presennol.

Yn ystod y cyfnod clo gyntaf wnaethom lwyddo i gael nifer o grantiau roeddem yn gymwys i'w dderbyn, a byddem yn anelu i ddal ati ar gyfer unrhyw gyfnodau clo gall godi eto.

## **9. Ydi'r pryniant yn mynd i gynnwys y dodrefn?**

Yndi

## **10. A fyddai defnyddio arian sydd yng nghoffrau y Fenter yn gwagio'r coffrau?**

Na, bydd digon o arian ar ôl yng nghoffrau'r fenter. Mae ein sefyllfa ariannol ar hyn o bryd yn iach.

## **11. Beth am gyfalaf gweithio i'r dyfodol?**

Drwy gynhyrchu digon o elw gweithredol a rheolaeth dynn o'r busnes (fel sydd wedi bod ers dechrau'r fenter) byddwn yn sicrhau bod digon o gyfalaf gweithio. Gyda chymorth y cyrff ariannu ac yn ymdrechion gwirfoddolwyr, rydym wedi gallu sicrhau bod yna ddigon o arian parod yn y cwmni sy'n ei gwneud hi yn bosibl ystyried y cam yma o ehangu - hefo chwistrelliad ychwanegol o gyfalaf drwy godi mwy o arian hefo cyfranddaliadau newydd.